Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 14eg Mehefin 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .20 p.m.

Presennol: Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins. Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies,
Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Pam Steane Price, Cyng Ieuan Gwyn.

Cofnod 15 / Mehefin/ 06 Penodi Cadeirydd

Cynigiwyd y Cyng Pam Steane Price gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.
Roedd pawb o blaid.

Cofnod 16 / Mehefin / 06 Penodi Is-gadeirydd

Cynigiwyd y Cyng Ieuan Gwyn gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Gan fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol, cynigiodd y Cyng Colin Jenkins fod y Maer, Cyng Hugh Towns yn mynd i'r Gadair am y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 17/ Mehefin / 06 Anfonebau i'w talu.

WCVA (CYFLOGAU MAI)	£ 159.76
WCVA (GWEINYDDIAETH MAI)	£ 34.66
CYFRANIAD TRYDAN CAMBRIA	£ 126.36
CROESAWU MAER LLANDEILO (LLOGI'R NEUADD DDINESIG)	£ 17.50
DERBYNIAD Y MAER (GWESTY'R CAWDOR)	£2191.90
GWESTEION Y CYNGOR YN NERBYNIAD Y MAER	£ 288.00
PINC (BLODAU I'R FAERES)	£ 35.00
JW THOMAS & SONS (ARGRAFFU'R BWYDLENNI)	£ 90.00
CLERC – POSTIO A DEUNYDD SWYDDFA	£ 30.92

Cynigiwyd talu'r rhain gan y Cyng Richard Wallace. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cofnod 18./ Mehefin / 06 Incwm a Dderbyniwyd

LLOG – CYFREDOL A/C	£ 4.98
ADENNILL TAW	£ 2681.33

Cofnod 19/ Mehefin/ 06 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

CYFRIF CYFREDOL LTC (31.5.06)	£ 28,251.43
CYFRIF CYNILO LTC (28.3.06)	£ 34,449.72
CYFRIF TREULIAU'R MAER LTC (20.5.06)	£ 874.91

Cofnod 20/ Mehefin/ 06 Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Tenovus (Grŵp Apêl Llandeilo)	£ 100	Cynigiwyd Cyng Colin Jenkins, Eiliwyd Cyng Richard Wallace
WRVS (yn cynnwys pryd ar glud Llandeilo)	£ 100	Cynigiwyd Cyng Colin Jenkins Eiliwyd Cyng Richard Wallace
Ambiwlans Awyr Cymru	£ 100	Cynigiwyd Cyng Edward Thomas Eiliwyd Cyng Roy Davies
Carys Jones (Codi Arian i Afiechyd Motor Niwron)	£ 50	Cynigiwyd Cyng Roy Davies Eiliwyd Cyng Edward Thomas

Ymweliad Côr Ysgol Tre-gib â Chanada – Nid y tro hwn

Cofnod 21/ Mehefin / 06 Materion Ariannol Eraill

1. Lwfans y Maer
   Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace fod yna gynnydd o 3 % ar gyfer 2006-7 yn dod â'r cyfanswm i £ 3347.

2. Mandad Banc ar gyfer 2006-7
   Yr aelodau newydd i arwyddo fydd Y Maer Cyng Hugh Towns, Y Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, a'r Maer Blaenorol, Cyng Colin Jenkins. Cynigiwyd hyn gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.

3. Rhagolwg y Gyllideb Tair Blynedd
   Esboniodd y Maer trwy wneud y rhagolygon hyn bydd yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer strategaethau'r dyfodol ac y gellir cynllunio a pharatoi ar gyfer eitemau blynyddol neu 'sefydlog'. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Bydd hwn yn gynnig y bydd yn rhaid i'r Cyngor Llawn i'w ystyried.

Cofnod 22 / Mehefin/ 06 Cytundeb Cynnal a Chadw Llwybrau Troed 2006-7

Roedd y tendrau a dderbyniwyd fel a ganlyn :
Mr Jonathan Field £ 810 + TAW
Mr Hugh Gwynne £ 700 + TAW
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid ei argymell i'r Cyngor Llawn y dylid dyfarnu'r cytundeb i'r tendr isaf, sef Mr Hugh Gwynne. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas.
Awdurdododd y Maer y dylai'r gwaith gael ei wneud cyn gynted â phosib oherwydd cyfyngiadau amser.

Cofnod 23 / Mehefin / 06 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Llythyr oddi wrth Mr Dilwyn Thomas yn nodi y bydd y gost o osod hysbysfwrdd newydd o dan y Bwa yn £ 145 + TAW. Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid gofyn i Mr Thomas wneud y gwaith. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.

2. E bost oddi wrth Mr Huw Parsons, Swyddog Digwyddiadau CSC, mewn perthynas â anfoneb sydd heb ei dalu ar gyfer profi'r mannau angori. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ymateb gan nodi er dibenion archwilio, na ddylai'r Cyngor gael ei weld yn talu am wasanaethau sydd heb eu darparu'n iawn. Hefyd, yn gyfreithlon, ni ddylai'r Cyngor dalu am wasanaeth sydd heb ei wneud yn iawn. Yr arfer i CSC yw adennill yr arian oddi wrth y contractwr.

3. Gohebiaeth oddi wrth Mr Gwilym Hughes o Cambria parthed y Cais am Gronfa 1.
Cyng Colin Jenkins a Cyng Richard Wallace (i ddirprwyo i'r Cyng Ieuan Gwyn) i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd o'r Panel Grantiau.

4. Adroddiad gan Lorne Stewart parth. Y system Gwres Canolog yn Neuadd y Sir.
Y Swyddog Technegol i gael prisau ar yr amrywiol eitemau ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn.

5. Ms Arthur, CSC yn gofyn am anfoneb ar gyfer Hysbysfwrdd y Llwybr Treftadaeth. Dywedodd y Swyddog Cyllid ei fod wedi'i anfon ymlaen i CSC.

6. Rhodd y Ford Gron.
Mae'r siec a anfonwyd at y Ford Gron am eu help yn un o ddigwyddiadau y llynedd, sef, noson cynnau'r goleuadau Nadolig a'r noson Tân Gwyllt wedi'i cholli gan un o'i haelodau. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon siec arall am £100. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk